Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad:

# Dadansoddiad o ymatebion i drefniadau arolygu Estyn ar gyfer addysg gychwynnol athrawon o fis Medi 2025 ymlaen

Lluniwyd: Mai 2025

## Tabl Cynnwys

**Ymatebion i'r ymatebion i drefniadau arolygu Estyn ar gyfer addysg gychwynnol athrawon o fis Medi 2025 ymlaen ..... 1**

**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Methodoleg ..... 1**

**3. Proffil yr ymatebwyr ..... 1**

**4. Canlyniadau ..... 4**

**5. Camau Nesaf ..... 12**

# Ymatebion i'r ymatebion i drefniadau arolygu Estyn ar gyfer addysg gychwynnol athrawon o fis Medi 2025 ymlaen

## 1. Cyflwyniad

Yn gynnar yn 2025, cynhalion ymgynghoriad cyhoeddus ar ein trefniadau arolygu ar gyfer addysg gychwynnol athrawon (AGA). Gwnaed hyn er mwyn i farn rhanddeiliaid gyfrannu at sut yr awn ati i gynnal arolygiadau o fis Medi 2025 ymlaen.

## 2. Methodoleg

Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur a oedd ar gael i'w lenwi ar-lein neu all-lein (dogfen PDF i'w llenwi a'i dychwelyd trwy'r e-bost neu'r post). Lansiom yr arolwg ar 4 Mawrth 2025, ac fe ddaeth i ben ar 28 Mawrth 2025.

Cawsom gyfanswm o 54 o ymatebion. Ni atebodd y 54 o ymatebwyr bob un o'r cwestiynau. Mae nifer yr ymatebion i bob cwestiwn wedi'i nodi yn yr adran sy'n berthnasol i bob cwestiwn.

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau testun rhydd wedi'u grwpio yn ôl themâu; mae nifer yr ymatebion dan bob thema yn cael eu cyfrif i greu safle. Gall ymatebion unigol gwmpasu mwy nag un thema – yn y sefyllfa hon, cofnodwyd ymateb yn erbyn mwy nag un thema.


Mae themâu a oedd â mwy nag ychydig o sylwadau (h.y. y rhain a grybwyllwyd gan fwy na 10% o'r holl ymatebwyr) wedi'u cofnodi yn yr adroddiad hwn.

Mae ymatebion cynrychioliadol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn i gyfathrebu'r prif bynciau sy'n gysylltiedig â phob thema. Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o dyfyniadau uniongyrchol a pharafrasu (lle mae elfennau o sawl ymateb yn cael eu crynhoi). Mae'r Canllawn Ysgrifennu Estyn (Estyn, 2024) wedi'i ddilyn wrth ddisgrifio'r cyfrannau o ymatebion (e.e. 'ychydig' yn gyfatebol i islaw 20% o'r ymatebwyr).

## 3. Proffil yr ymatebwyr

Cawsom gyfanswm o 54 o ymatebion i'r holiadur ymgynghori. Roedd gan y rhai a atebodd y proffil ymatebydd canlynol:


**Ffigur 1: Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n llenwi'r holiadur hwn.**




*Cafwyd cyfanswm o 46 o ymatebion (85% o'r holl ymatebwyr). Ni chafwyd ymatebion ar gyfer Athro dan hyfforddiant a roddodd y gorau i ddilyn rhaglen AGA, Llywodraethwr ysgol nac Athro gyrfaoedd cynnar (hyd at 5 mlynedd).

Gofynnom i'r ymatebwyr pa sector roeddent yn ei gynrychioli, hefyd.

**Ffigur 2: Pa sector ydych chi'n ei gynrychioli? Dewiswch bob un o'r opsiynau perthnasol.**





*Cafwyd cyfanswm o 46 o ymatebion (85% o'r holl ymatebwyr). Ni chafwyd ymatebion ar gyfer Corff llywodraethwyr, Sector gwirfoddol neu Arall.

## 4. Canlyniadau

**C3.** Gofynnom i'r ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig i leihau nifer y meysydd rydym yn eu hystyried mewn arolygiadau AGA, yn unol â newidiadau mewn sectorau eraill, fel ein harolygiadau o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Cyflwynwyd dau gynnig:

| Dyma'r meysydd arolygu rydym yn eu defnyddio **ar hyn o bryd**: | Cynnig 1 | Cynnig 2 |
|---|---|---|
| MA1 Dysgu<br>MA2 Lles ac agweddau at ddysgu<br>MA3 Addysgu a phrofiadau dysgu<br>MA4 Gofal, cymorth ac arweiniad<br>MA5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dyma'r tri maes arolygu **arfaethedig**:<br>MA1 Addysgu, mentora a dysgu<br>MA2 Lles, datblygiad proffesiynol, gofal, cymorth ac arweiniad<br>MA3 Arwain a gwella | Dyma'r ddau faes arolygu **arfaethedig**:<br>MA1 Addysgu, mentora a dysgu<br>MA2 Lles, datblygiad proffesiynol, gofal, cymorth ac arweiniad<br>(Bydd arweinyddiaeth a gwelliant yn cael eu hymgorffori ym meysydd arolygu 1 a 2) |

**Ffigur 3: Rydym yn cynnig ein bod yn lleihau nifer y meysydd yr ydym yn eu hystyried yn ystod arolygiadau AGA, yn unol â newidiadau mewn sectorau eraill, fel ein harolygiadau o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**




*Cafwyd cyfanswm o 44 o ymatebion (79% o'r holl ymatebwyr)

Mae cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gydag 89% o'r rhai a atebodd yn cytuno – naill ai'n cytuno'n gryf (32%) neu'n cytuno (57%). Roedd saith y cant o'r rhai a atebodd yn anghytuno â'r cynnig – naill ai'n anghytuno'n gryf (2%) neu'n anghytuno (5%).

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 32 o ymatebwyr (57% o'r holl ymatebwyr). Y pedair thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:


- Nododd 10 o ymatebwyr (18% o'r holl ymatebwyr) fod ***yn well ganddynt Gynnig 1***
- Nododd naw o ymatebwyr (16% o'r holl ymatebwyr) eu bod ***yn hoffi'r syniad o gael cysondeb rhwng y sectorau***

- Nododd chwech o ymatebwyr (11% o'r holl ymatebwyr) eu bod o'r farn ***y dylid gwerthuso arweinyddiaeth ar wahân*** h.y. Cynnig 1
- Nododd chwech o ymatebwyr (11% o'r holl ymatebwyr) fod ***yn well ganddynt Gynnig 2***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C4.** Gofynnom i'r ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig i gadw'r cyfnod rhybudd o wyth wythnos a gaiff partneriaethau cyn arolygiad:

**Ffigur 4: Rydym yn cynnig y dylem gynnal y cyfnod rhybudd 8 wythnos a gaiff partneriaethau AGA cyn arolygiad. Mae hyn yn rhoi digon o amser i ni sicrhau ein bod yn gallu defnyddio staff ar gyfer y rhannau o'r arolygiad mewn prifysgolion ac mewn ysgolion yn briodol. Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**




*Cafwyd cyfanswm o 44 o ymatebion (79% o'r holl ymatebwyr)

Mae cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gydag 86% o'r rhai a atebodd yn cytuno – naill ai'n cytuno'n gryf (34%) neu'n cytuno (52%). Roedd cyfran fach, sef 5%, o'r rhai a atebodd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig.


Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 19 o ymatebwyr (34% o'r holl ymatebwyr). Y ddwy thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Dywedodd naw o ymatebwyr (16% o'r holl ymatebwyr) eu bod yn ***cytuno â'r cynnig i gynnal y cyfnod rhybudd o wyth wythnos***
- Crybwyllodd naw o ymatebion (16% o'r holl ymatebwyr) fod ***amser paratoi yn hanfodol***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol, h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C5.** Gofynnom i'r ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig i addasu ein trefniadau i ymgysylltu'n amlach â darparwyr - i ddilyn y broses ar gyfer ysgolion ac UCDau – sef ymweliad interim ac arolygiad craidd yn ystod y cylch arolygu chwe blynedd:

**Ffigur 5: Dilyn y broses ar gyfer ysgolion ac UCDau – sef ymweliad interim ac arolygiad craidd yn ystod y cylch arolygu chwe blynedd. Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**




*Cafwyd cyfanswm o 45 o ymatebion (80% o'r holl ymatebwyr)

Mae cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gyda 73% o'r rhai a atebodd yn cytuno – naill ai'n cytuno'n gryf (36%) neu'n cytuno (38%). Roedd cyfanswm o 13% o'r rhai a atebodd yn anghytuno â'r cynnig – naill ai'n anghytuno'n gryf (7%) neu'n anghytuno (7%).


Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 30 o ymatebwyr (54% o'r holl ymatebwyr). Y pedair thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Nododd 14 o ymatebwyr (25% o'r holl ymatebwyr) eu bod ***o'r farn bod rhaid cynnal ymweliadau interim ac arolygiadau mewn modd cydweithredol a chefnogol:***
  - "nid barn yw'r ymweliadau interim hyn, ond ffordd o gefnogi"
  - "rhaid i bartneriaethau AGA ystyried yr arolygydd yn ffigur cefnogol"
- Dywedodd naw o ymatebwyr (16% o'r holl ymatebwyr) eu bod ***yn credu bod mwy o ymgysylltu'n beth da:***
  - "Mae hunanwerthuso/gwerthuso gan gymheiriaid/gwerthuso allanol yn gyson yn llawer gwell nag arolygiadau untro sydd â llawer yn y fantol"
- Crybwyllodd saith o ymatebwyr (13% o'r holl ymatebwyr) eu bod ***yn hoffi'r syniad o arolygydd cyswllt ac yn ei ystyried yn rhywbeth a all ddod ag ymagwedd y gellid uniaethu â hi***
- Nododd chwech o ymatebwyr (11% o'r holl ymatebwyr) eu bod yn ***cytuno â'r cynnig***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**<u>C6.</u>** Gofynnom i'r ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig i newid y cyfnod arolygu o chwe blynedd i bum mlynedd. Mae hyn yn golygu y byddai'r cylch AGA yn dechrau ym mis Medi 2025 ac yn gorffen yn 2030, fel bod hyn yn cyd-fynd â chwblhau'r cylch o arolygiadau mewn ysgolion:

**Ffigur 6: Newid y cyfnod arolygu o 6 blynedd i 5 mlynedd. Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**




*Cafwyd cyfanswm o 45 o ymatebion (80% o'r holl ymatebwyr)

Mae cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gyda 76% o'r rhai a atebodd yn cytuno – naill ai'n cytuno'n gryf (32%) neu'n cytuno (44%). Roedd deunaw y cant o'r rhai a atebodd yn anghytuno â'r cynnig – naill ai'n anghytuno'n gryf (9%) neu'n anghytuno (9%).

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 28 o ymatebwyr (50% o'r holl ymatebwyr). Y thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Nododd 11 o ymatebwyr (20% o'r holl ymatebwyr) eu bod ***yn credu bod cyd-fynd â'r broses arolygu mewn ysgolion ac UCDau yn syniad da:***
    - "Ymagwedd gyson"
    - "Rwy'n teimlo'n gryf am hyn gan y dylai gyd-fynd ag ysgolion ym mhob agwedd"

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C7.** Gofynnom i'r ymatebwyr beth oedd eu barn ar ein cynnig i gynnwys datganiad ar bob adroddiad ysgol i gofnodi p'un a ydynt yn ymwneud ag AGA; ac ym mha ffyrdd eraill allwn ni gryfhau sut rydym yn edrych ar AGA yn ystod arolygiadau ysgol?

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 37 o ymatebwyr (66% o'r holl ymatebwyr). Y tair thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Nododd 20 o ymatebwyr (36% o'r holl ymatebwyr) bod ***angen ymgyrch i gynyddu ymgysylltiad ysgolion ag AGA:***
  - "Byddai hwn yn syniad da iawn, gan gynyddu pwysigrwydd ymgysylltiad ag AGA a dathlu partneriaethau cryf."
  - "Ai dyma'r anogaeth sydd ei hangen ar ysgolion i ymgysylltu ag AGA?"
- Nododd saith o ymatebwyr (13% o'r holl ymatebwyr) gallwn gryfhau sut rydym yn edrych ar AGA yn ystod arolygiadau ysgolion ***trwy drafod y mater yn ystod cyfweliadau â mentoriaid***
- Nododd chwech o ymatebwyr (11% o'r holl ymatebwyr) ein bod yn cryfhau sut rydym yn edrych ar AGA yn ystod arolygiadau ysgolion ***trwy drafod y mater yn ystod cyfweliadau ag athrawon dan hyfforddiant***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol ag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C8.** Gofynnom i'r ymatebwyr beth oedd eu barn ar yr holiadur rydym wedi'i ddatblygu i gasglu barn athrawon dan hyfforddiant, sy'n rhan bwysig o'r sail dystiolaeth ar gyfer ein harolygiad o addysg gychwynnol athrawon.

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 27 o ymatebwyr (48% o'r holl ymatebwyr). Y ddwy thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Nododd naw o ymatebwyr (16% o'r holl ymatebwyr) fod ***y cwestiynau'n rhy ddeuaidd:***
  - "Yn gyffredinol, dwi'n credu bod 'Cytuno/Anghytuno yn rhy amwys. Yn fewnol ac mewn arolygon boddhad myfyrwyr cenedlaethol, mae athrawon dan hyfforddiant wedi arfer ymateb ar raddfa 4 neu 5 pwynt."
- Nododd wyth o ymatebwyr (14% o'r holl ymatebwyr) eu bod o'r farn bod ***yr holiaduron yn berthnasol / defnyddiol / cynhwysfawr***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C9.** Gofynnom i'r ymatebwyr, yn ogystal â'r holiadur, sut gallem ni gynnwys athrawon dan hyfforddiant yn fwy yn y trefniadau arolygu newydd?

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 34 o ymatebwyr (61% o'r holl ymatebwyr). Y ddwy thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Awgrymodd un ar ddeg o ymatebwyr (20% o'r holl ymatebwyr) ***grwpiau ffocws ar bynciau amrywiol:***
    - "Grwpiau ffocws â ffocws penodol ar agwedd ar eu profiadau."
- Nododd saith o ymatebwyr (13% o'r holl ymatebwyr) eu bod o'r farn y ***byddai cynnal cyfweliadau yn effeithiol***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C10.** Gofynnom i'r ymatebwyr, yn rhan o'r broses arolygu newydd o 2025 ymlaen, pa wybodaeth fyddai'n fuddiol ei chynnwys mewn adroddiad arolygu?

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 30 o ymatebwyr (54% o'r holl ymatebwyr). *Crybwyllwyd pob un o'r themâu gan ychydig iawn o ymatebwyr h.y. llai na 10%.* Y ddwy thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Gofynnodd pedwar o ymatebwyr (7% o'r holl ymatebwyr) ***pa mor dda y mae AGA yn paratoi unigolion ar gyfer y byd go iawn?***
- Crybwyllodd pedwar o ymatebwyr (7% o'r holl ymatebwyr) y ***dylai gwybodaeth am les fod yn flaenoriaeth***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C11.** Gofynnom i'r ymatebwyr pa ddulliau eraill allem ni eu defnyddio i roi adborth am negeseuon o adroddiad arolygu AGA i wahanol gynulleidfaoedd?


Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 28 o ymatebwyr (50% o'r holl ymatebwyr). *Crybwyllwyd pob un o'r themâu gan ychydig iawn o ymatebwyr h.y. llai na 10%.* Y ddwy thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Awgrymodd pedwar o ymatebwyr (7% o'r holl ymatebwyr) ***gyfryngau cymdeithasol***
- Crybwyllodd tri o ymatebwyr (5% o'r holl ymatebwyr) ***ffeithluniau ac adnoddau gweledol***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**<u>C12.</u>** Gofynnom i'r ymatebwyr a ydynt yn cytuno â chyflwyno cipluniau.

**Ffigur 12: Ydych chi'n cytuno â chyflwyno cipluniau?**




*Cafwyd cyfanswm o 43 o ymatebion (77% o'r holl ymatebwyr)

Mae cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gyda 91% o'r rhai a atebodd yn cytuno.

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 18 o ymatebwyr (32% o'r holl ymatebwyr). <u>*Crybwyllwyd pob un o'r themâu gan ychydig iawn o ymatebwyr h.y. llai na 10%.*</u> Y ddwy thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Awgrymodd tri o ymatebwyr (5% o'r holl ymatebwyr) bod rhaid i'r hyn sy'n cael ei rannu ***fod wedi'i brofi/yn debygol o fod yn effeithiol, yn drosglwyddadwy ac yn gynaliadwy***
- Awgrymodd tri o'r ymatebwyr (5% o'r holl ymatebwyr) y dylai arfer orau gael ei rhannu ***ar gyfryngau cymdeithasol***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**<u>C13.</u>** Gofynnom i'r ymatebwyr roi adborth ar unrhyw agweddau eraill ar drefniadau arolygu Estyn.

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 28 o ymatebwyr (50% o'r holl ymatebwyr). Y thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Amlygodd chwech o'r ymatebwyr (11% o'r holl ymatebwyr) ***y pwysau llwyth gwaith y mae arolygiadau Estyn yn ei achosi a gofyn a oes unrhyw ffordd y gellid lleddfu hyn***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C14.** Gofynnom i'r ymatebwyr roi adborth ar eu barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg.

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 29 o ymatebwyr (52% o'r holl ymatebwyr). *Crybwyllwyd pob un o'r themâu gan ychydig iawn o ymatebwyr h.y. llai na 10%.* Y ddwy thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Amlygodd pump o'r ymatebwyr (9% o'r holl ymatebwyr) ***y dylai arfer orau ganiatáu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg***
- Roedd pedwar o'r ymatebwyr (7% o'r holl ymatebwyr) yn credu ***na fydd unrhyw effaith amlwg***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C15.** Gofynnom i'r ymatebwyr roi adborth ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol bobl.

Rhoddwyd barnau a rhesymau, ar ffurf ymatebion testun rhydd, gan 24 o ymatebwyr (43% o'r holl ymatebwyr). Y thema fwyaf cyffredin a drafodwyd oedd:

- Roedd saith o'r ymatebwyr (13% o'r holl ymatebwyr) yn credu ***na fydd unrhyw effaith amlwg***

Mae'r ymatebion eraill a gafwyd yn cynrychioli themâu unigol gydag ychydig iawn o ymatebion ategol h.y. y rhai a grybwyllwyd gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr.

**C16.** Gofynnom i'r ymatebwyr, os oeddent yn ymateb ar ran sefydliad, i nodi enw'r sefydliad.

Rhoddodd 11 o unigolion enw eu sefydliad. Y rhain oedd:

| |
|---|
| Gwe |
| Ysgol David Hughes |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant, Casnewydd |
| Ysgol Gynradd Ynys y Barri |
| Ysgol y Pant |
| Ysgol Uwchradd Willows |
| Ysgol Gynradd Danescourt |

| |
|---|
| Prifysgol De Cymru |
| APLP |
| NASUWT Cymru |

**C17.** Gofynnom i'r ymatebwyr, os oeddent yn hapus i Estyn gysylltu â nhw eto ynglŷn â'u sylwadau, i roi eu manylion cyswllt.

Darparwyd manylion cyswllt gan 14 o unigolion.

## 5. Camau Nesaf

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn helpu i lywio'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer addysg gychwynnol athrawon o fis Medi 2025 ymlaen.